## ATODLEN 2

## GWYBODAETH I'W CHYNNWYS MEWN ADRODDIADAU LLYWODRAETHWYR

**4.** Datganiad ariannol—

(a) sy'n atgynhyrchu neu'n crynhoi unrhyw ddatganiad ariannol y darparwyd copi ohono i'r corff llywodraethu gan yr awdurdod lleol o dan adran 52 o Ddeddf 1998(**1**) ers adroddiad blaenorol y llywodraethwyr;

(b) sy'n nodi, mewn termau cyffredinol, sut y defnyddiwyd unrhyw swm y trefnodd yr awdurdod iddo fod ar gael i'r corff llywodraethu (gan gynnwys cyfran yr ysgol o'r gyllideb) yn ystod y cyfnod a gwmpaswyd gan yr adroddiad;

(c) sy'n rhoi manylion am y defnydd o unrhyw roddion a roddwyd i'r ysgol yn ystod y cyfnod hwnnw; ac

(ch) sy'n nodi cyfanswm unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth a dalwyd i aelodau o'r corff llywodraethu yn y cyfnod hwnnw.

(**1**) Diwygiwyd is-adran (1) gan Ddeddf Addysg 2005 (p.18), Atodlen 18, paragraff 10(1), (2)(a) a (b). Diwygiwyd is-adrannau (1) a (2) gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, adran 253(1) a (2) (p.22). Mewnosodwyd is-adran (1A) gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 18, paragraff 10(1) a (3). Diwygiwyd is-adrannau (1), (1A), (2), (2A) a (7) hefyd gan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd is-adran (2) gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32), Atodlen 18, paragraff 10(1), (4)(a) a (b). Diwygiwyd is-adran (2)(b) gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 22, Rhan 3. Diwygiwyd is-adran (2)(d) gan Ddeddf Addysg 2002, adran 45(1) a (2). Mewnosodwyd is-adran (2A) gan Ddeddf Addysg 2002, adran 45(1) a (3) a mewnosodwyd is-adran (2B) gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 18, paragraff 10(1) a (5).